Crynodeb:

Amcanion: Disgrifio effaith gynnar COVID-19 a chamau rheoli cysylltiedig ar ymddygiad rhywiol defnyddwyr PrEP yng Nghymru.

Dulliau: Cafwyd data o astudiaeth “ecological momentary assessment“ o ddefnydd PrEP ac ymddygiad rhywiol. Roedd y rhai oedd yn cymryd rhan yn unigolion a oedd yn cael PrEP trwy glinigau iechyd rhywiol y GIG ar draws pedwar bwrdd iechyd yng Nghymru. Dadansoddwyd data wythnosol yn dogfennu rhyw heb gondom yn ystod yr wythnos flaenorol rhwng 03/02/2020 a 10/05/2020. Cyflwynwyd camau cadw pellter cymdeithasol a newidiadau i glinigau iechyd rhywiol yng Nghymru’r wythnos a ddechreuodd ar 16/03/2020. Gosodwyd modelau atchweliad logistaidd dwy lefel i ryw heb gondom (ie / na) dros amser, yn cynnwys dangosydd ar gyfer yr wythnos a ddechreuodd ar 16/03/2020, ac fe'u hestynnwyd i archwilio cysylltiadau gwahaniaethol yn ôl statws perthynas a chlinig iechyd rhywiol.

Canlyniadau: Cafwyd data gan 56 o gyfranogwyr ac roeddent yn cynnwys 697 wythnos-person (89% o'r nifer uchaf y gellid fod wedi'i gael). Ar gyfartaledd, nododd 42% o'r cyfranogwyr ryw heb gondom yn y cyfnod cyn cyflwyno camau cadw pellter cymdeithasol, a nododd 20% ryw heb gondom ar ôl hynny (“Odds Ratio (OR)” = 0·16, 95% CI: 0·07 i 0·37, $p < 0·001$). Roedd peth tystiolaeth i awgrymu bod y cysylltiad hwn wedi'i gymedroli yn ôl statws perthynas (OR ar gyfer pobl sengl oedd yn cymryd rhan = 0·09, 95% CI: 0·04 i 0·23; OR ar gyfer pobl oedd yn cymryd rhan nad oedd yn sengl = 0·46, 95% CI: 0·17 i 1·25).

Casgliadau: Roedd cyflwyno camau cadw pellter cymdeithasol a newidiadau i wasanaethau PrEP ledled Cymru yn gysylltiedig â gostyngiad amlwg mewn achosion a adroddwyd o gyfathrach rywiol heb gondom ymysg ymatebwyr, gyda gostyngiad mwy ymhlith y rhai oedd yn sengl o gymharu â'r rhai nad oedd yn sengl. Mae angen astudio yn ofalus ar effaith hirdymor COVID-19 a chamau rheoli cysylltiedig ar iechyd a lles corfforol a meddyliol y boblogaeth hon.